

Ein Gwlad

Edrych yn awr, O Arglwydd, ar Gymru;
gwêl hi heddiw yn nyfnder ei gwarth.
Bu dy orchymyn yn ysgrifen ar ei chalon hi,
a'th adnodau yn rhagdalau rhwng ei llygaid.
Ond heddiw nid oes nac ofn na pharch yn y
tir; nid oes mwyach ôl glin ar garreg yr aelwyd.

Jennie Eirian Davies

EMYNAU

**Wrth i ni gofio am Gymru cofiwn hefyd am lywodraethau'r byd i gyd
a rho iddynt weledigaeth glir:**

Gweddiwn, Arglwydd, arnat ti
dros lywodraethau'n daear ni:
rho iddynt weledigaeth glir
i ganfod rhyddid yn y gwir.

Raymond Williams (*Caneuon Ffydd*: 814)

**Awn ymlaen yn anturiaethau yr Ysbryd Glân er mwyn ceisio
d'ogoniant di:**

Dduw Iôr ein tadau, nefol Dad,
O achub a sancteiddia'n gwlad;
cysegra'n dyheadau ni
i geisio dy ogoniant di.

J. T. Job (*Caneuon Ffydd*: 815)

**Nefol Dad, arwain ni i fawrhau'r Efengyl yn ein gwlad a gwneud pob
teulu'n deulu Duw:**

Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion,
 dy gyfiawnder fyddo'i grym:
 cadw hi rhag llid gelynion,
 rhag ei beiau'n fwy na dim:
 rhag pob brad, nefol Dad,
 taena d'adain dros ein gwlad.

Elfed (*Caneuon Ffydd*: 827)

Dysg ni i garu Cymru trwy drysori ei hiaith, ei llên a'i thraddodiadau:

Dysg imi garu Cymru,
 ei thir a'i broydd mwyn,
 rho help im fod yn ffyddlon
 bob amser er ei mwyn;
 O dysg i mi drysori
 ei hiaith a'i llên a'i chân
 fel na bo dim yn llygru
 yr etifeddiaeth lân.

W. Rhys Nicholas (*Caneuon Ffydd*: 832)

O gofio arloeswyr ddoe cymorth ni i dystio heddiw fel na ddiffodded y fflam:

Arglwydd, rho o'th nerth i ninnau
 dystio heddiw dros y gwir,
 fel na choller breintiau Seion
 a goludoedd gras o'n tir.
 Na ddiffodded fflam yr allor
 yn ein gwlad o oes i oes;
 boed y golau'n dal i dywys
 ei phreswylwyr at y groes.

D. E. Williams (*Caneuon Ffydd*: 842)

Arwain ni o'n gwyro gwamal at uniondeb dy lwybrau:

Argyhoedda ni, O Arglwydd, o'n gwyro
gwamal, fel y gwelom ffolineb ein ffyrdd,
a throi drachefn at uniondeb dy lwybrau.

O Arglwydd y cenedloedd, nac anghofia'r
genedl a geraist; Wyliwr yr holl ardaloedd, diwel
dy wlith ar Walia wen.

Jennie Eirian Davies (*Caneuon Ffydd*: 873)

GWEDDIAU

Dyrchafwn gri a diolchwn i ti am dy rodd i ni o iaith, diwylliant a thraddodiad:

O! DDUW
Ein Duw
RHOWN GLOD, DIOLCH A MAWL
Y parch a'r bri i ti am y Gymru hon
AM DY RODD I NI MEWN IAITH,
DIWYLLIANT A HANES. Amen.

Owain Llyr Evans

Fel cenedl chwiliwn am ein lle ymhlith teyrnasoedd y byd:

Gorfoleddwn yn y ffaith ei fod yn fwriad gennyt erioed i gynnwys pob math o bobl yn dy deyrnas dragwyddol. Bendigwn dy enw am fod dy Efengyl yn creu teulu byd-eang newydd yng Nghrist, o holl gyfandiroedd y byd, gan ein cynnwys ni hefyd. Amen.

John Treharne

Cyffeswn ein bod fel gwlad wedi cefnu arnat ti a gofynnwn am dy faddeuant:

Cyflwynwn i'th ddwylo gyflwr ein gwlad. Cydnabyddwn nad wyt yn cael y lle teilyngaf posibl yn ein bywyd. Gyda thristwch y cydnabyddwn y troi cefn amlwg ar efengyl dy Fab, y troi yma sy'n rhoi bod i'r holl

bethau negyddol hynny yn ein hanes. Deisyfwn dy faddeuant, ond ynghlwm wrth y deisyfiad yna erfyniwn hefyd am gymorth ac am nerth. Amen.

Eifion Arthur Roberts

Cofleidiwn Gymru gyfan yn ein hymbiliau a'n dyheadau:

Gweddiwn, Arglwydd, dros ein cenedl a'i phobl:
 dros ein cymdogaethau, ein trefi a'n pentrefi;
 dros ein cartrefi a'n bywyd teuluol;
 dros ein hysgolion, ein colegau a'n pobl ifanc;
 dros sefydliadau cyhoeddus, gwleidyddion a chynghorwyr;
 dros ddiwydiannau a'u gweithwyr;
 dros gefn gwlad a phawb sy'n trin y tir;
 dros y cyfryngau, cynhyrchwyr a darlledwyr;
 dros fudiadau diwylliannol, llenorion a beirdd;
 dros ysbytai, meddygon a chleifion;
 dros bawb sy'n gweinyddu'r gyfraith;
 dros y tlawd, y digartref a'r di-waith;
 dros ein heglwysi, cynulleidfaoedd dy bobl
 a lledaeniad dy deyrnas yn ein plith. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

Gwna ni'n Gymru fydd yn llawforwyn i ti ymhlith cenedloedd y byd:

Dyro dy gymorth i ni oll wasanaethu Cymru yn rhagorach. Wrth i ni gael nerth gennyt Ti i wasanaethu ein hiaith a'n diwylliant, rho i ni gael doethineb gennyt Ti hefyd i ganfod pwrpas ein bodolaeth fel cenedl. Pâr i ni weld fel y gall y genedl fod yn llawforwyn i Ti ymhlith cenedloedd daear. Dysg i ni oll, ac i'r genedl gyfan, glywed yr alwad nefol i wasanaethu y Deyrnas. Planna fywyd yn ein plith a fydd yn rhyfeddod y cenedloedd ac yn destun diolch yr oesoedd. Amen.

Rhagor o Weddïau yn y Gynulleidfa

ADNODAU**Mae Duw ar hyd y canrifoedd wedi dangos ei ddaioni tuag atom fel cenedl:**

Gwyn ei byd y genedl y mae'r ARGLWYDD yn Dduw iddi, y bobl a ddewisodd yn eiddo iddo'i hun.

Salm 33: 12

Fe ddaw gwaredigaeth i'r genedl ac mae'r dydd hwnnw'n agos yn ôl y proffwyd:

“Gwrandewch arnaf, fy mhobl;
clywch fi, fy nghenedl;
oherwydd daw cyfraith allan oddi wrthyf,
a bydd fy marn yn goleuo pobloedd.

Eseia 51: 4

Mae'r proffwyd yn cyhoeddi barn ar ei genedl ei hun am ei bod wedi gwrthod gwranddo:

A dywedi wrthynt, ‘Hon yw'r genedl a wrthododd wrando ar yr ARGLWYDD ei Duw, ac ni dderbyniodd gerydd. Darfu am wirionedd; fe'i torrwyd ymaith o'u genau.’

Jeremeia 7: 28

Y cyhuddiad yn erbyn Iesu, oriau cyn ei groeshoelio, oedd ei fod yn arwain ei genedl ar gyfeiliorn:

Dechreusant ei gyhuddo gan ddweud, “Cawsom y dyn hwn yn arwain ein cenedl ar gyfeiliorn, yn gwahardd talu trethi i Gesar, ac yn honni mai ef yw'r Meseia, sef y brenin.”

Luc 23: 2

Heb neb i'w harwain a'u cyfarwyddo methiant fydd hanes y genedl honno:

Heb ei chyfarwyddo, methu a wna cenedl,
ond y mae diogelwch mewn llawer o gynghorwyr.

Diarhebion 11: 14

Gweledigaeth y Salmydd yw fod Duw yn Dduw ar y cenedloedd i gyd:

Dywedwch ymhlith y cenedloedd, “Y mae’r ARGLWYDD yn frenin”;
yn wir, y mae’r byd yn sicr ac nis symudir;
bydd ef yn barnu’r bobloedd yn uniawn.

Salm 96: 10

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Trwy ffydd yr achubir bywyd cenedl, gan gynnwys yr iaith sy’n rhan o’i gwaddol ysbrydol: a gwaith enbyd o anodd yw tanio pobl Cymru â ffydd yn eu gwlad.

Gwynfor Evans

Y Gymraeg yw’r unig arf a eill ddisodli llywodraeth y Sais yng Nghymru.

Saunders Lewis

Y mae i Gymru ei hiaith ei hun, ac ni fedr gadw ein henaid hebddi.

O. M. Edwards

Rhaid yw cael Cymru Fydd yn Gymru Rydd.

Ben Bowen

Ond pa mor dda bynnag ydi’n cenedl, byddwn wylidwrus rhag ofn i ni feddwl fod ein cenedl ni’n well nag unrhyw genedl arall. Dyna oedd gwendid y genedl Iddewig.

Yr hyn a wnaeth George MacLeod ar Ynys Iona oedd torri’r rhagfuriau a chroesi ffiniau. Ein drwg ni yng Nghymru yw ein bod yn cadw’r rhagfuriau ac yn codi rhagor ohonynt.